



Adnabyddiaeth o faterion diogelu a gweithdrefnau ymateb

Canllaw goleuadau traffig – Sut ddylwn i weithredu?

G – Gweithredwch yn syth (COCH)

D – Dysgwch beth allwch chi (OREN)

Rh – Rhowch gyfarwyddyd da (GWYRDD)

Cafodd y canllaw hwn ei ddatblygu fel offeryn cyfeirio i wirfoddolwyr (a staff sy'n gweithio y tu allan i'w cylch gwaith arferol) sy'n darparu galwadau cyswllt trwy ffôn neu fideo i'r rheini a fyddai fel arall, o bosib, wedi'u hynysu, megis gwasanaeth holi a sgwrsio (Check and Chat), Cyfeillio neu gefnogaeth cyfoedion/ o bell. Mae wedi'i

gynllunio er mwyn eu cynorthwyo i benderfynu os yw'r sefyllfa'n gofyn am ymateb diogelu wrthyn nhw, ac os ydyw, beth ddylen nhw wneud.

Gobeithiwn ei fod yn darparu canllaw cyfeirio defnyddiol i'w gadw wrth ymyl y ffôn.

Ni fwriedir i'r canllaw hwn gymryd lle sesiynau cynefino a hyfforddiant diogelu ond gallai gynnig cefnogaeth a sicrwydd i wirfoddolwyr sy'n newydd i'r rôl. Tra'i bod yn hynod annhebygol y byddant yn cymryd galwad sy'n gofyn am ymateb 'Coch', mae'n well bod yn barod bob amser a


chael ychydig o wybodaeth wrth law pe cyfyd sefyllfa o'r fath. Mae'n well gweithredu BOB AMSER, a throsglwyddo gwybodaeth sy'n rhybuddio asiantaethau eraill ac yn eu galluogi i benderfynu ar y camau nesaf (a allai fod yn 'Dim gweithredu pellach') na gwneud dim byd.

Dylid pwysleisio mai'r rheolwr/ cydlynnydd gwirfoddolwyr neu'r Arweinydd Diogelu Dynodedig (ADD) ddylai

ddarparu'r gefnogaeth gyntaf i wirfoddolwyr os oes ganddyn nhw unrhyw amheuaeth ynglŷn â'u hymatebion. Efallai y carech restru eu rhifau yma.


Cydlynnydd: _____

Arweinydd diogelu: _____

 **Awgrym ymarferol:** Gofynnwch bob tro: 'Ydy hi'n ddiogel i chi siarad ar yr alwad hon, yn rhydd a heb i unrhyw un eich clywed?'

Y LEFEL GOCH

Yr hyn sydd angen cadw golwg amdano	Gweithredu
<p>Ydy'r person rydych chi'n siarad â nhw neu rywun maen nhw'n siarad amdanynt yn ddiodefwr trosedd (bygythiad corfforol, lladrad, mynediad trwy rym i'r adeilad)?</p> <p>Ydy hi'n ymddangos fel pe bai bygythiad uniongyrchol a sylweddol i fywyd, neu fod trosedd wedi'i chyflawni?</p>	<p>Ffoniwch 999. Sicrhewch fod yr wybodaeth gennych (fel rhestrir isod mewn print du) a fydd yn galluogi'r Heddlu, neu'r Gwasanaeth Ambiwlans, i weithredu.</p>

Yr hyn sydd angen cadw golwg amdano	Gweithredu
<p>Neu ydyn nhw'n profi rhywbeth sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'n anniogel?</p> <p>Fe allen nhw ddweud:</p> <p>'Cefais neges destun yn dweud bod yn rhaid i fi gael prawf Covid-19 ac y bydd rhywun yn dod i fy ngweld i'</p> <p>'Mae person wrth fy nrws sy'n methu â dangos cerdyn adnabod a dydw i ddim yn disgwyl unrhyw un i alw.'</p>	<p>Arhoswch yn ddigynnwrf a gofynnwch a oes modd iddynt ffonio 101 eu hunain neu ceisiwch gael gwybodaeth berthnasol, ffeithiol oddi wrthynt er mwyn gwneud adroddiad ar eu rhan:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ble mae hyn yn digwydd? (cyfeiriad) • Pwy sy'n cael eu heffeithio? (enwau llawn, os ydych yn ymwybodol ohonynt/ os yw'r rhain yn hysbys) • Beth sy'n digwydd/ wedi digwydd? <p>Dywedwch wrthynt beth fydd yn digwydd nesaf – ymateb yr heddlu, etc.</p>
<p> Awgrym ymarferol: Rhowch eich enw ac enw'r mudiad rydych chi'n gweithio iddo bob amser</p>	
<p>Ydy'r person rydych chi'n siarad â nhw neu amdanyn nhw</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn oedolyn y mae angen gofal neu gefnogaeth arnynt (gofal iechyd, gofal cymdeithasol, gwasanaethau cymorth), neu 	<p>Gofynnwch am gydsyniad yr unigolyn, yna cysylltwch â Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n lleol i'w cartref - Cysylltiadau i Awdurdodau Lleol yng Nghymru CLLLC</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhowch enw cyswllt yn eich mudiad - naill ai chi neu'r ADD – i'r sawl sy'n cymryd yr adroddiad, er mwyn derbyn adborth • Nodwch enwau'r bobl rydych chi'n siarad â nhw

Yr hyn sydd angen cadw golwg amdano

Gweithredu

- yn blentyn (unrhyw un o dan 18 mlwydd oed)
- ac mae'r hyn maen nhw'n ei ddweud yn rhoi **achos rhesymol i chi amau** eu bod nhw'n profi camdriniaeth?

Ydy'r person yn amharod i gydsynio bod yr wybodaeth yn cael ei rhannu, neu'n ymddangos fel pe na baen nhw'n deall, neu ydyn nhw'n ansicr ynglŷn â'r sefyllfa?

Dyma'r categorïau o gamdriniaeth:

- cam-drin ariannol
- Corfforol
- Rhywiol
- Emosiynol
- Esgeulustod

Mae camdriniaeth yn niwed a gyflawnwyd gan berson mae'r dioddefwr yn ei adnabod, aelod o'r teulu neu ffrind, gofalwr, neu berson proffesiynol megis doctor neu athro.

- Dywedwch wrthynt **yn union** beth ddywedodd yr unigolyn wrthyh

Cyswllt

- eich rheolwr/ cydlynnydd/ ADD, neu yn eu habsenoldeb
- y swyddfa Gwasanaethau Cymdeithasol leol, ac
- esboniwch eich pryderon.

Rhaid i chi/ eich rheolwr gysylltu â'r Person Diogelu Dynodedig yn eich mudiad neu'r Awdurdod Lleol am wybodaeth bellach.

Byddai o gymorth pe byddech yn gwneud nodiadau ynglŷn â:

- Yr hyn a ddywedwyd wrthyh sydd wedi peri pryder
- Yr hyn a wnaethoch
- Yr hyn a rannoch a gyda phwy
- Enwau a manylion cyswllt pob person
- Dyddiad y digwyddiad
- Dyddiad nodiadau
- Eich enw a'ch llofnod ar unrhyw beth rydych chi'n ei ysgrifennu

Sicrhewch fod rhywun yn gwirio'n ddiweddarach gyda'r unigolyn ynglŷn â:

Yr hyn sydd angen cadw golwg amdano

Gweithredu

Gallai'r unigolyn wneud honiad neu ysgogi amheuaeth trwy ddefnyddio sylwadau fel:

(Ariannol) 'Rhoddais fanylion fy ngherdyn banc i fy nghymydog a nawr mae fy manc yn dweud bod fy nghyfrif yn ddyledus'

(Corfforol) 'Mae angen i fi gael lladdwyr poen/ fynd i'r Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys ond dydw i ddim yn gwybod os oes hawl gen i i fynd' (bod yn ynysig)


(Rhywiol) Plentyn – 'Dw i'n credu y gallwn i fod yn feichiog'

Oedolyn – 'Fe gyffyrddodd fy ngofalwr â fi mewn modd nad oeddwn i'n gyfforddus ag ef'

(Emosiynol) 'Alla' i ddim dioddef teimlo wedi fy nghau i mewn fan hyn gyda... fel hyn. Dydyn nhw ddim yn siarad gyda fi, dydyn nhw ddim yn bwyta gyda fi'

- pa gamau a gymeroch,
- beth ddigwyddodd mewn ymateb i'r sefyllfa, a
- beth arall allai fod ei angen arnyn nhw, o fewn mater o ddyddiau.

Yr hyn sydd angen cadw golwg amdano	Gweithredu
<p>(Esgeulustod) ‘Dw i’n oer, yn llwglyd, yn teimlo’n sâl’ (pan mai rhywun arall sy’n gyfrifol am wresogi, bwyd, gofal) etc.</p>	
<p>Noder Gall cam-drin domestig gynnwys yr holl fathau o gamdriniaeth a restrir uchod yn ogystal â rheolaeth trwy orfodaeth (ymddygiad ystrywgar neu ecsbloetiol).</p> <p>Byddwch yn wyliadwrus o:</p> <ul style="list-style-type: none"> • rywun arall yn codi’r ffôn • yn gwrando ar alwadau • yn tynnu’r ffôn oddi ar y person rydych chi’n siarad â nhw • yn dod â’r alwad i ben yn sydyn • synau cefndirol sy’n peri pryder i chi <p>Cynnwys enghreifftiol</p> <p>‘Mae fy mhartner yn ymateb yn wael iawn i orfod ynysu. Maen nhw o dan straen ac yn</p>	<p>Cymorth i Ferched Cymru ar gyfer cefnogaeth cam-drin domestig Llinell Gymorth Byw Heb Ofn 0808 80 10 800</p>

Yr hyn sydd angen cadw golwg amdano	Gweithredu
gweiddi tipyn arna i am ddim rheswm. Dw i'n dechrau teimlo bod ofn arna' i'	
<p> Awgrym ymarferol: Sefydlwch pa ganlyniadau mae'r person yn gobeithio amdanynt trwy rannu'u sefyllfa gyda chi (beth maen nhw'n gobeithio fydd yn digwydd).</p>	

LEFEL OREN

Yr hyn sydd angen cadw golwg amdano	Gweithredu
<p>Ydy'r person rydych chi'n siarad â nhw, neu amdany'n nhw:</p> <p>yn oedolyn a allai fod ag anghenion gofal a chefnogaeth, ac a allai fod yn profi camdriniaeth, esgeulustod, niwed neu galedi?</p> <p>Gallai hon fod yn sefyllfa barhaus ond nad yw'n peri bygythiad uniongyrchol neu ddifrifol i fywyd.</p>	<p>Arhoswch yn ddigynnwrf a gwrandewch ar yr hyn mae'r person yn ei ddweud wrthy'ch.</p> <p>Sefydlwch y ffeithiau sylfaenol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Manylion personol yr unigolyn • Eu hanghenion presennol • Eu pryderon penodol • Eu mynediad at ddulliau cyfathrebu

Yr hyn sydd angen cadw golwg amdano

Gweithredu

AC

Mae'r person sy'n codi'r pryderon yn nodi eu bod yn barod ac yn abl i benderfynu ar y ffordd o weithredu sydd orau ganddynt ac i weithredu eu hunain, neu'n gallu derbyn cymorth i wneud hynny.

Enghreifftiau:

'Dydw i ddim yn siŵr os yw'r person ddaeth at y drws o [mudiad ag iddo enw da] go iawn'.
Wnaethon nhw ddim dangos unrhyw ID i fi ond roedden nhw'n awyddus iawn i gasglu fy mhresgripsiynau ar fy rhan. Â phwy ddylwn i siarad?'

'Mae fy nai yn dweud y gall archebu fy siopa ar fy rhan, ond dydw i ddim am roi fy manylion banc iddo, dw i'n amau ei fod wedi mynd ag arian o fy mhws cyn hyn. Oes unrhyw un arall allai wneud hyn ar fy rhan?'

Cyfeiriwch nhw at Wasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth y Gwasanaethau Cymdeithasol, (a elwir weithiau yn Siop Un Stop) (ceir rhifau ffôn, cyfeiriadau e-bost a gwefannau isod) yn eu hardal nhw lle gallan nhw adrodd ynglŷn â'u pryderon, a sicrhau ymateb priodol mewn ymateb iddynt.

Cofnodwch bob trafodaeth, penderfyniad a gweithred mor agos at yr amser ag sy'n bosibl neu cwblhewch Log Digwyddiad Diogelu os yn briodol. Gofynnwch am gyngor gan y Person Diogelu Dynodedig.

Dilynwch gyda galwad i'r unigolyn er mwyn sicrhau eu bod wedi llwyddo i wneud fel roedden nhw'n gobeithio, o fewn cyfnod rhesymol o amser.

Yr hyn sydd angen cadw golwg amdano	Gweithredu
<p>'Dydw i ddim yn teimlo'n ddiogel gyda'r gofalwyr newydd, dw i jest ddim yn gwybod pwy ydyn nhw. Beth yw fy opsiynau?'</p>	

LEFEL WERDD

Yr hyn sydd angen cadw golwg amdano	Gweithredu
<p>Ydy'r person yn gwneud cwyn, yn mynegi anfodlonrwydd neu'n mynegi'r angen i gael gafael ar wybodaeth gyffredinol? Gallai hyn fod yn berthnasol i faterion ariannol, iechyd a gwasanaethau gofal, etc.</p> <p>Nid oes arwyddion bod yr unigolyn yn dioddef trallod na niwed</p> <p>AC</p> <p>Nid oes honiadau o gam-drin yn cael eu gwneud yn sgil gweithredoedd neu ddiffyg gweithredoedd trydydd parti</p>	<p>Adwaenwch y math o wybodaeth neu wasanaeth sydd ei angen ar yr unigolyn a chyfeiriwch nhw ato.</p> <p>Ee:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llinell Wybodaeth a Chyngor Age Cymru am daflenni gwybodaeth i bobl hŷn • Mudiadau Age Cymru neu Age Connects lleol am ragor o gyngor i bobl hŷn • Yr Awdurdod Lleol/ Gwybodaeth, Cyngor, Cymorth y Gwasanaethau Cymdeithasol lleol • Yr adran gwynion briodol a/ neu Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer materion yn ymwneud â gwasanaethau gofal neu iechyd

Yr hyn sydd angen cadw golwg amdano	Gweithredu
<p>AC</p> <p>Nid yw'r pryderon a godwyd yn berthnasol i oedolyn sydd angen, neu allai fod angen, gofal a chefnogaeth, neu blentyn o dan 18 mlwydd oed.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cyngorau Gwirfoddol Sirol ac InfoEngine, ar gyfer mudiadau cefnogi lleol, ee Cyngor ar Bopeth <p>Gweler y dudalen ddilynol am fanylion.</p> <p>Cofnodwch bob trafodaeth a gweithrediad cyn gynted ag sy'n bosibl (cynhaliwch gyfrinachedd yr unigolyn trwy gadw'r holl gofnodion yn ddiogel a'u rhannu â'r cydlynnydd yn unig). Ceisiwch gyngor gan y Person Diogelu Dynodedig, os oes angen.</p> <p>Gadewch i'r unigolyn wybod y gallan nhw ffonio yn ôl os na fyddan nhw'n cael y canlyniadau roedden nhw'n gobeithio amdanynt.</p>

RHESTR ADNODDAU

Llinell gyngor NSPCC ar gyfer Ymarferwyr: [Cyngor a chefnogaeth NSPCC](#) **0808 800 5000**

Dydd Llun i ddydd Gwener 8 am – 10 pm neu 9 am – 6 pm ar benwythnosau

Childline: [Childline](#) **0800 1111** er mwyn i blant ffonio

Llinell Wybodaeth a Chyngor Age Cymru am wybodaeth ynglŷn â gwasanaethau gofal lleol i bobl hŷn: **Cyngor Age Cymru** ar **08000 223 444** neu e-bostiwch advice@agecymru.org.uk (ar agor rhwng 9am a 5pm, dydd Llun i ddydd Gwener)

Cymorth i Ferched Cymru [Llinell Gymorth Byw Heb Ofn](#) /
0808 80 10 800 am gefnogaeth cam-drin domestig
System galwad dawel (**999** wedi'i ddilyn gan **55** pan gewch
eich procio)

Cyfeiriwch, fel sy'n briodol, at:

- Cynghorau Gwirfoddol Sirol – [Cefnogi Trydydd Sector Cymru](#)
- Awdurdodau Lleol - [Cysylltiadau i Awdurdodau Lleol yng Nghymru CLLC](#)
- InfoEngine, ar gyfer mudiadau cefnogi lleol - [Infoengine Cymru](#)
- Cyngor ar Bopeth – [Cyngor ar Bopeth y DU](#)

Rolau Diogelu

Rhaid cysylltu â Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol lle ceir pryderon ynglŷn â gwaith gweithiwr neu wirfoddolwr.

Bydd y Person Diogelu Dynodedig (yn eich mudiad) yn asesu'r sefyllfa (gan gynnwys unrhyw angen am lunio adroddiad i'r Gwasanaethau Cymdeithasol) ac yn gwneud cofnod o'u gweithredoedd, eu penderfyniadau a'r canlyniadau.

Bydd Log Digwyddiad Diogelu yn gymorth i bawb er mwyn ysgrifennu popeth sydd angen iddynt gofnodi neu wybod.